Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Ifor Bach

**Windsor Way**
**Abertridwr**
**Caerffili Abertridwr**
**CF83 4AB**

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Ifor Bach

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Ifor Bach |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 259 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 202 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 30 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 24.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 7.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 2.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 23/03/2023 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 04/12/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Ifor Bach yn gymuned ddysgu lwyddiannus sy’n dathlu Cymreictod, cwrteisi a pharch, a chyflawniad disgyblion, yn arbennig o dda. Mae’r pennaeth gweithredol yn cynnig arweiniad clir a doeth ac yn gwerthfawrogi ymdrechion pawb wrth gyfrannu at addysg gyflawn y disgyblion. Mae’r holl staff yn ymrwymo i sicrhau ansawdd uchel o ofal a lles ar gyfer disgyblion ar draws yr ysgol, mewn awyrgylch dysgu cartrefol a chefnogol. Mae hyn yn dylanwadu’n gryf ar agweddau’r disgyblion tuag at ei gilydd ac at bobl eraill o fewn a thu hwnt i’r ysgol.

Mae’r staff addysgu a’r cynorthwywyr yn modelu iaith yn fwriadus ac yn brwdfrydig, sy’n cael effaith ar fedrau llafar y disgyblion o oedran ifanc. O ganlyniad, mae defnydd a balchder y disgyblion o’r Gymraeg yn nodwedd gref. Mae staff yn cydweithio’n llwyddiannus er mwyn cynllunio ystod o brofiadau dysgu a chwarae ysgogol a pherthnasol i’r disgyblion. Mae balchder y disgyblion o’u hardal leol a hanes y pyllau glo yn amlwg.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau sy’n briodol i’w hoedrannau a’u mannau cychwyn yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae’r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau llafar a darllen yn fedrus, gan gyfrannu’n bwrpasol mewn trafodaethau dosbarth a mynegi eu barn yn glir ac aeddfed. Er hyn, nid yw medrau ysgrifennu annibynnol disgyblion wedi datblygu’n ddigon effeithiol.

Ar y cyfan, mae athrawon yn cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion weithio’n annibynnol ac i gydweithio â’i gilydd i ddatrys heriau a chwblhau prosiectau. Yn yr ychydig achosion ble nad yw’r addysgu mor effeithiol, prin yw’r cyfleoedd i ddisgyblion weithio’n annibynnol ac i wella’u gwaith yn bwrpasol yn dilyn adborth athrawon.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi medrau dysgu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn fwriadus. O ganlyniad, maent yn gwneud cynnydd da dros amser yn erbyn eu targedau a’u cyraeddiadau blaenorol.

Mae trefniadau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd yr ysgol yn drwyadl. Mae aelodau’r corff llywodraethol yn cefnogi’r pennaeth gweithredol a’r staff yn bwrpasol. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o gryfderau’r ysgol ynghyd â’r blaenoriaethau ar gyfer gwella, gan ddarparu cydbwysedd priodol o gymorth a her.

Mae’r pennaeth gweithredol, gyda chefnogaeth y staff a’r llywodraethwyr, yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelu mewn ffordd hynod effeithiol a chefnogol. O ganlyniad, mae disgyblion yn hapus a diogel yn yr ysgol.

## Argymhellion

A1 Datblygu medrau ysgrifennu annibynnol disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn cychwyn yr ysgol â medrau llythrennedd, rhifedd a chymdeithasol sy'n is na'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf, gan gynnwys y rheini sydd wedi eu hadnabod fel disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarn ym mron pob agwedd o'u dysgu.

Mae medrau gwrando'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n dda. Maent yn gwrando'n astud ar oedolion ac ar eu cyfoedion ac yn dilyn cyfarwyddiadau yn gywir ac yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando ar, ac ymateb yn barchus i, gyfraniadau eu cyfoedion yn ystod gwaith grŵp.

Mae llafaredd Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarn ar draws yr ysgol. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn trafod eu tasgau a mynegi eu teimladau a'u syniadau'n hyderus. Maent yn dangos parodrwydd i sgwrsio am eu profiadau dysgu gan ddefnyddio iaith bwrpasol gydag ymwybyddiaeth dda o gynulleidfa, er enghraifft drwy greu podlediadau amrywiol am yr ardal leol.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu dealltwriaeth o seiniau llythrennau a chyfuno llythrennau yn bwrpasol. Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn datblygu eu medrau'n hyderus ac yn mwynhau darllen ystod berthnasol o lyfrau a thestunau digidol. Mae uwch fedrau darllen mwyafrif y disgyblion hynaf yn datblygu'n gadarn, er enghraifft wrth iddynt gywain gwybodaeth am yr arlunydd a'r glöwr lleol Nicholas Evans.

Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau modur mân yn gadarn cyn symud ymlaen at greu marciau'n bwrpasol, er enghraifft gan ddefnyddio deunyddiau naturiol. Mae hyn yn eu paratoi i ddatblygu medrau ysgrifennu cynnar. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn ysgrifennu brawddegau syml gydag annibyniaeth gynyddol gan roi sylw addas i atalnodi sylfaenol. Maent yn datblygu eu dealltwriaeth a'u gallu i ysgrifennu mewn gwahanol ffurfiau, fel dyddiadur hanes Elen Benfelen.

Mae mwyafrif y disgyblion hynaf yn ysgrifennu mewn gwahanol arddulliau ar draws y meysydd dysgu gan amlygu dealltwriaeth dda o reolau gramadegol, pwrpas, ffurf a chynulleidfa, er enghraifft drwy ysgrifennu darn yn mynegi barn am adeiladu tai newydd yn agos i'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw eu medrau ysgrifennu annibynnol wedi datblygu'n ddigonol.

Mae medrau mathemateg llawer o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. Mae'r disgyblion ieuengaf yn hyderus wrth gyfrifo rhifau hyd at 100 ac maent yn adnabod gwerth arian. Maent yn cymhwyso eu medrau'n llwyddiannus yn yr ardaloedd dysgu, er enghraifft wrth roi newid yn ôl i gwsmer yn siop y dosbarth. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn datblygu'n fathemategwyr cymwys. Maent yn ymdrin ag onglau yn hyderus, gan gyfrifo gwerth onglau coll mewn cylch. Defnyddiant eu gwybodaeth yn synhwyrol wrth gynllunio ac adeiladu mecanwaith i godi pwysau.

Mae medrau digidol llawer o ddisgyblion yn datblygu'n bwrpasol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau'n dda wrth ddefnyddio llechen gyfrifiadurol ac apiau sy'n hybu eu medrau llafar a datblygiad o rif. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, maent yn datblygu eu medrau'n bwrpasol, er enghraifft wrth ddechrau trin data mewn pictogram a defnyddio meddalwedd i gynhyrchu animeiddiad syml. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae medrau llawer yn adeiladu'n gyson ar ddysgu blaenorol wrth ddefnyddio ystod gynyddol o feddalwedd a chyfarpar digidol. Er enghraifft, maent yn defnyddio ap codio i reoli teclyn i ddilyn llwybr yn llwyddiannus a chynhyrchu amrywiaeth o gyflwyniadau am waith thema'r dosbarth. Er hyn, nid yw eu medrau digidol yn trin data wedi datblygu'n llawn. Mae'r disgyblion yn ymwybodol o sut i gadw'n ddiogel ar-lein.

Mae medrau creadigol bron bob un o'r disgyblion yn datblygu'n llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn defnyddio ystod o gyfryngau ar gyfer efelychu gwaith arlunydd o Gymru. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn ymfalchïo yn eu gwaith gorffenedig sy'n cael ei arddangos yn ddeniadol ar furiau'r ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at weithgarwch corfforol. Maent yn mwynhau cymryd rhan mewn sesiynau addysg gorfforol ac yn ymateb yn hyderus i gyfarwyddiadau. Maent yn dangos parch at ei gilydd a rheolau'r gweithgareddau. Mae'r disgyblion hynaf yn datblygu eu medrau gymnasteg yn fedrus yn ystod y sesiynau hyn.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob disgybl yn teimlo'n hapus a diogel o fewn amgylchedd cynhwysol ac ysgogol yr ysgol. Maent yn dangos balchder amlwg tuag at eu hysgol ac yn gwerthfawrogi'r ystod gyfoethog o brofiadau a ddarperir ar eu cyfer. Caiff hyn ei adlewyrchu ym mrwdfrydedd ac agwedd iach y disgyblion tuag at eu dysgu.

Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn rhagorol yn ystod eu gweithgareddau, wrth weithio'n annibynnol, ac wrth chwarae gyda'u ffrindiau yn ystod amseroedd egwyl a chinio. Maent yn ystyriol o'u cyfoedion ac yn ymateb yn aeddfed pan fydd angen cymorth ar ddisgyblion sy'n wynebu heriau penodol. Maent yn gwybod beth i'w wneud os ydynt yn poeni am unrhyw agwedd o'u profiadau yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn mynegi eu teimladau'n hyderus ac yn fodlon rhannu unrhyw bryderon sydd ganddynt.

Mae'r rhan fwyaf yn datblygu dealltwriaeth glir o'r gwerthoedd hanfodol sy'n cyfrannu at eu datblygiad fel unigolion cyflawn a dinasyddion cyfrifol, gan gynnwys dangos parch at bawb. Mae'r modd y mae'r disgyblion hynaf yn cynnig gweithgareddau darllen a chorfforol i'r disgyblion ieuengaf yn ystod adegau egwyl yn adlewyrchu hyn yn effeithiol.

Yn ystod gweithgareddau, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn barod i ddysgu. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau dysgu yn gynyddol annibynnol trwy fwynhau profiadau ymarferol. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn datblygu hyder cynyddol ac yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig wrth ddysgu a chwarae yn y dosbarth neu yn yr ardaloedd tu allan. Er enghraifft, mae disgyblion yn dyfalbarhau wrth adeiladu bwthyn ar gyfer y dyn bach sinsir gan ddefnyddio adnoddau naturiol.

Maent yn gwybod bod cynnal corff iach yn gymorth i gynnal eu lles. Mae gweithgareddau fel y sesiwn lles wythnosol i bob dosbarth yn hyrwyddo eu hagweddau cadarnhaol at les yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn siarad yn frwdfrydig am eu gwaith ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol â thestunau dosbarth. O oedran cynnar, maent yn ymgyfarwyddo'n gyflym â threfn y dosbarth meithrin trwy ddechrau dewis gweithgareddau mewn gwahanol ardaloedd. Maent yn datblygu eu dealltwriaeth o geisio ffordd arall pan ddônt ar draws anawsterau yn eu dysgu.

Maent yn ymateb yn gadarnhaol i gyfleoedd bwriadus yn ystod sesiynau i ystyried eu cynnydd personol a'r dulliau i wella'u gwaith, sy'n cryfhau eu datblygiad fel dysgwyr annibynnol. O ganlyniad, mae llawer yn cymryd perchnogaeth dros eu dysgu, er enghraifft drwy gymryd rhan weithredol yn y broses o osod targedau unigol. Mae llawer yn ymateb yn gadarnhaol i adborth athrawon a chynorthwywyr wrth wella'u gwaith. Mae'r disgyblion yn datblygu hunan-werth trwy ddathlu gwaith thema ysgol gyfan 'Fi ar fy ngorau'.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn barod i ymgymryd â chyfrifoldebau yn frwdfrydig. Maent yn gwneud defnydd da o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau arwain trwy ystod o rolau a chynghorau 'llais y disgybl'. O ganlyniad, maent yn hyderus wrth esbonio sut mae eu gwaith wedi gwneud gwahaniaeth i fywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae aelodau'r 'criw Cymraeg' yn siarad yn frwdfrydig am wahodd disgyblion o ysgol gyfagos atynt i ddysgu Cymraeg.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth drylwyr o bwysigrwydd cydraddoldeb a pharchu eraill. Mae'r disgyblion hynaf yn ystyried a thrafod hawliau plant yn ystyrlon a'r cyfrifoldebau sy'n cyd-fynd â'r rhain. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd cynaliadwyedd ac yn ystyriol o effaith pobl ar yr amgylchedd. Mae gan y disgyblion hynaf ddealltwriaeth aeddfed o effaith trychinebau naturiol ar gymunedau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o sut i ofalu am eu lles meddyliol ac emosiynol. Maent yn datblygu'r gallu a'r hyder i drafod a rhannu eu teimladau, sy'n gymorth iddynt ddeall a dangos empathi at eraill mewn cyfyngder.

Maent yn dangos dealltwriaeth o amrywiaeth o ddiwylliannau yn ddeallus, er enghraifft wrth ddysgu am wahanol grefyddau a phobl ddylanwadol fel Martin Luther King. Maent yn dechrau deall rhai o'r materion moesegol sy'n wynebu'r byd, fel sefyllfa heriol pobl Gaza o ganlyniad i'r anghydfod yn y dwyrain canol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o weithdrefnau cadw'n ddiogel, gan gynnwys wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn gyson a phrydlon sy'n cyfrannu'n effeithiol at gynnal cyfraddau presenoldeb uchel yn yr ysgol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae'r holl staff yn cydweithio'n ddiwyd i gynnig cwricwlwm cyfoethog ac i ddarparu profiadau dysgu sy'n sbarduno dychymyg disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r ddarpariaeth werthfawr hon yn cwmpasu meysydd dysgu a phrofiad Cwricwlwm i Gymru yn fwriadus, gan sicrhau dilyniant ym medrau disgyblion ac ennyn eu diddordeb a'u mwynhad. Maent yn sicrhau bod cydbwysedd ac ehangder priodol ym mhrofiadau disgyblion ar draws y cwricwlwm.

Mae athrawon yn creu amgylcheddau dysgu buddiol lle mae disgyblion yn datblygu eu medrau'n llwyddiannus. Er enghraifft, ym mlynyddoedd isaf yr ysgol, mae'r athrawon yn cynllunio cyfres o weithgareddau ysgogol sy'n datblygu dealltwriaeth y disgyblion o beth sy'n eu gwneud nhw'n arbennig ac yn unigryw. Ym mlynyddoedd uchaf yr ysgol, mae'r disgyblion yn mwynhau dysgu am hanes yr ardal leol, gan ddatblygu eu dealltwriaeth o drychineb Senghennydd, yr effaith gafodd hyn ar y gymuned a sut mae eu cwm wedi datblygu hyd heddiw. Mae'r athrawon yn ymestyn y gwaith hwn i alluogi disgyblion i ddysgu am y byd ehangach. Mae'r profiadau hyn yn helpu disgyblion i gael ymdeimlad o berthyn a gwell dealltwriaeth o fywyd yn y gorffennol o gymharu â'r presennol. Mae'r staff yn cysylltu'r dysgu hwn â'u dyheadau eu hunain, gan ystyried y rhinweddau sydd eu hangen ar gyfer dewis gyrfaoedd yn y dyfodol.

Mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llafar, er enghraifft wrth alluogi iddynt berfformio ar lwyfan y dosbarthiadau ieuengaf. Maent yn cynllunio cyfleoedd iddynt ddarllen ystod o wahanol ddeunyddiau ac i ysgrifennu mewn amrediad o ffurfiau yn ystod y flwyddyn. Mae cyfleoedd bwriadus i'r disgyblion ddatblygu medrau rhifedd mewn cyd-destunau gwahanol. Er enghraifft, maent yn atgyfnerthu eu gwybodaeth am ddyblu a'u medrau mesur wrth gyfrifo perimedr defnydd i greu clytwaith dosbarth. Mae athrawon yn ymestyn ac yn cyfoethogi darpariaeth y cwricwlwm drwy ymweliadau addysgol diddorol fel taith i Bwll Mawr i ddysgu mwy am brofiad y glowyr ac ymweliad i Gaerdydd i wrando ar gerddorfa broffesiynol. Maent yn gwahodd y rhieni i'r ysgol yn rheolaidd, er enghraifft drwy gymryd rhan yn nigwyddiadau 'Caffi Clonc' ac 'Ifor Ffest'. Mae hyn yn gyfle da i staff, rhieni a disgyblion gymdeithasu ac i ymfalchïo yn eu hysgol a'u Cymreictod.

Mae gan yr holl staff ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion ac maent yn cydweithio'n bwrpasol i feithrin agweddau cadarn o ddyfalbarhad a gwytnwch ymhob disgybl. Mae ganddynt berthynas waith agos a chynnes â'r disgyblion. Maent yn trin pob un â charedigrwydd a pharch sydd yn creu amgylchedd cynhwysol a gofalgar drwy'r ysgol. Maent yn rhoi lle amlwg i gynnwys syniadau'r disgyblion fel rhan o'r broses o gynllunio gweithgareddau dysgu. Mae'r rhan fwyaf o athrawon a chynorthwywyr yn defnyddio iaith lafar raenus ac yn annog disgyblion i ddefnyddio geirfa a phatrymau iaith cywir yn gyson. Ar draws yr ysgol, mae'r cynorthwywyr yn defnyddio eu harbenigedd i gyfrannu'n effeithiol at ddatblygu dysgu'r disgyblion.

Mae bron bob un o’r athrawon yn cynllunio’r dysgu’n fedrus i sicrhau bod lefel yr her i ddisgyblion yn briodol. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn defnyddio ystod o dechnegau addysgu effeithiol yn gyson. Maent yn holi disgyblion yn fedrus, sy’n eu galluogi i adeiladu ar eu dysgu blaenorol ac ymestyn eu dealltwriaeth ymhellach. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn deall nod y sesiynau dysgu, ac yn eu cynnwys yn bwrpasol yn y broses o bennu’r meini prawf llwyddiant ar gyfer gweithgareddau. Maent yn cynnal cyflymder addas, gan atal y dysgu ar adegau pwrpasol er mwyn pwysleisio pwynt pwysig neu atgyfnerthu dealltwriaeth disgyblion.

Yn yr arferion addysgu gorau, mae llawer o athrawon yn darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion weithio’n annibynnol ac i gydweithio â’i gilydd i gwblhau heriau a phrosiectau diddorol. Maent yn darparu cyfleoedd buddiol iddynt ystyried ansawdd eu gwaith eu hunain, ac ar adegau priodol, gwaith disgyblion eraill. Mewn llawer o ddosbarthiadau, mae safon yr adborth ar lafar a roddir gan athrawon yn dda. Mae hyn yn arwain y disgyblion i ddeall sut i wella eu gwaith ar y pryd, er enghraifft wrth atgoffa disgyblion o briodweddau stori ddiddorol. Mae’r athrawon yn rhoi sylw i waith ysgrifenedig ochr yn ochr â’r disgyblion. Golyga hyn fod gan lawer o ddisgyblion adnabyddiaeth gadarn o’u llwyddiannau a’r agweddau mae angen iddynt eu gwella. Yn yr ychydig achlysuron lle nad yw’r addysgu mor effeithiol, prin yw’r cyfleoedd i ddisgyblion weithio’n annibynnol ac i wella’u gwaith yn bwrpasol yn dilyn adborth athrawon.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae staff yn ymrwymo i sicrhau ansawdd uchel o ofal a lles disgyblion ar draws yr ysgol. Maent yn cydweithio’n llwyddiannus i greu awyrgylch hapus a chynhwysol sy’n dathlu amrywiaeth a Chymreictod yn effeithiol iawn. Mae staff yn cefnogi anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol y disgyblion yn arbennig er mwyn iddynt allu ymgysylltu’n gadarnhaol â’r ysgol ac elwa ar yr amrywiaeth o gyfleoedd y mae’n ei chynnig.

Mae’r diwylliant o hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Mae’r rhain yn cynnwys sesiynau cydaddoli dyddiol, gyda chyfleoedd i’r disgyblion fyfyrio ar werthoedd fel parchu pawb, eu hargyhoeddi am bwysigrwydd hawliau plant a darparu cyfleoedd i ddathlu eu llwyddiannau. Mae’r ysgol yn manteisio ar gyfleoedd bwriadus i wahodd ymwelwyr i siarad â’r disgyblion am eu bywyd, eu gwaith a’u treftadaeth. Enghraifft dda o hyn yw gwahodd gwyddonwraig i siarad am losgfynyddoedd sy’n annog disgyblion i gael dyheadau uchel o ran cyfleoedd i’r dyfodol.

Un o gryfderau hynod effeithiol yr ysgol yw’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY. Caiff y disgyblion dargedau mesuradwy a chyraeddadwy sy’n amlinellu eu hanghenion addysgol, emosiynol neu gymdeithasol yn glir. Mae gan bob un o'r disgyblion broffil unigol manwl sy’n cynnig gwybodaeth bwysig am eu diddordebau, eu dulliau dysgu addas a sut i ofalu am eu lles. Maent yn cynnwys amlinelliad clir o strategaethau a chefnogaeth benodol sy’n llwyddo i sicrhau bod y disgyblion yn cyrraedd eu targedau.

Mae’r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) yn olrhain cynnydd y disgyblion ac mae bron bob disgybl sydd ag ADY yn gwneud cynnydd da dros amser yn erbyn eu targedau a’u cyraeddiadau blaenorol. Agwedd nodedig yw’r ddarpariaeth

i gefnogi iechyd meddwl a lles emosiynol disgyblion penodol. Defnyddir y wybodaeth am y disgyblion yn effeithiol er mwyn bodloni eu hanghenion yn ogystal â gwneud defnydd uniongyrchol o gyngor a chefnogaeth asiantaethau arbenigol, yn ôl yr angen. O ganlyniad, mae gan staff adnabyddiaeth drylwyr o'r strategaethau sy'n effeithiol i fodloni anghenion y disgyblion, er enghraifft wrth gefnogi'r disgyblion hynny sydd ag arwyddion o ddyslecsia.

Mae staff yn rhoi pwyslais amlwg ar gynnwys mewnbwn y disgyblion wrth gynllunio'r cwricwlwm, sy'n cynnwys cyfrannu at ddewis thema'r dosbarth, cynnig syniadau ar gyfer gweithgareddau a llunio cwestiynau yr hoffent ddarganfod atebion iddynt yn ystod eu gwaith. Enghraifft dda iawn o hyn yw'r disgyblion hynaf yn dewis agweddau yr hoffent eu dysgu yn ystod thema 'Gwefr y Gorffennol', gan arddangos brwdfrydedd wrth ddysgu am fywyd pobl leol yn ystod cyfnod y pyllau glo.

Mae gan yr ysgol ystod dda o gynghorau sy'n gyfrwng effeithiol i'r disgyblion fynegi eu barn. Mae'r pwyllgorau lles ac eco, y llysgenhadon a chriw'r siarter iaith yn cynnig cyfleoedd bwriadus i'r disgyblion ddylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, penderfynodd y pwyllgor lles wobrwyo presenoldeb dosbarthiadau a sefydlu trefn 'bydi' i gefnogi disgyblion yn ystod amser egwyl.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hybu iechyd a ffitrwydd yn boblogaidd ymhlith y disgyblion ac yn cael effaith dda ar eu lles a'u datblygiad corfforol. Mae'r profiadau'n cynnwys defnydd o ffynhonnau dŵr yn ogystal â chyfleoedd i ddysgu am fwyta'n iach yn y dosbarthiadau. Mae cyfleoedd buddiol yn yr ardaloedd allanol i gefnogi lles disgyblion gan gynnwys y defnydd o feiciau a sgwteri yn rheolaidd.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o'u hunaniaeth, treftadaeth a'r diwylliant Cymreig yn effeithiol iawn. Mae'r rhain yn cynnwys dathlu a chofio arwyddocâd hanes Ifor Bach a chystadlu mewn Eisteddfod Gŵyl Ddewi ar y cyd â disgyblion o ysgol cyfrwng Saesneg gyfagos er mwyn hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

Mae staff yn monitro prydlondeb a phresenoldeb disgyblion yn effeithiol. Mae'r gweithdrefnau a ddefnyddir i herio presenoldeb isel yn gynhwysfawr ac yn cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau presenoldeb. Mae arweinwyr yn cydweithio'n llwyddiannus â swyddogion yr awdurdod er mwyn sicrhau diogelwch disgyblion, staff ac ymwelwyr. Mae trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y pennaeth gweithredol weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy'n seiliedig ar ddarparu lles, hapusrwydd a'r profiadau dysgu gorau ar gyfer pob disgybl. Mae wedi rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus â disgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni. Mae'r arweinwyr yn ymroddgar a gweithgar iawn wrth iddynt ddarparu cwricwlwm sy'n ddiddorol, yn ennyn diddordeb disgyblion ac yn talu sylw pwrpasol i gyd-destun yr ardal leol.

Mae'r pennaeth gweithredol yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer ei hun, y staff a'r disgyblion ac yn hyrwyddo gwaith tîm hynod effeithiol rhwng yr athrawon a'r cynorthwywyr. Mae gweledigaeth gytûn yr ysgol wedi ei seilio'n gadarn ar ddatblygu

lles disgyblion a chynnal perthnasoedd iach a hapus. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos agweddau cryf tuag eu dysgu.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau priodol i gywain tystiolaeth sy'n galluogi arweinwyr i adnabod cryfderau a'r meysydd sydd angen eu datblygu. O ganlyniad, maent yn dechrau mynd i'r afael â meysydd pwysig sydd angen eu gwella o ran y ddarpariaeth a'r addysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn ar draws y cwricwlwm.

Mae gan yr ysgol brosesau hunanwerthuso cadarn sy'n cynnwys staff, rhieni a disgyblion yn y broses. Mae cynnal gweithgareddau fel craffu ar lyfrau, ymweld â dosbarthiadau a chynnal trafodaethau â'r staff yn cynorthwyo arweinwyr i adnabod blaenoriaethau gwella'r ysgol. Maent yn cynllunio gweithgareddau gwella sy'n ymateb yn effeithiol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Er enghraifft, mae arweinwyr yn sicrhau bod yr ysgol yn hyrwyddo lles disgyblion, yn datblygu ei strategaethau i gyflwyno a gweithredu disgwyliadau Cwricwlwm i Gymru, ac yn ymateb yn llwyddiannus i ofynion y ddeddf ADY.

Mae'r llywodraethwyr yn gweithredu'n hynod effeithiol fel ffrindiau beirniadol. Mae ganddynt wybodaeth gadarn am y ddarpariaeth ac effaith gweithdrefnau'r ysgol ar gynnydd a lles disgyblion. Maent yn rhannu cyfrifoldebau yn gydwybodol ac yn cynnal ymweliadau pwrpasol i werthuso effaith y ddarpariaeth ar safonau a chynnydd. Maent yn derbyn ac ymateb i wybodaeth a chyflwyniadau defnyddiol gan y pennaeth gweithredol, arweinwyr a'r disgyblion am waith yr ysgol. Maent yn herio'r pennaeth a'r staff addysgu yn ystyrlon ac yn cyfrannu'n briodol at lunio blaenoriaethau gwella. Maent yn cydweithio â staff a disgyblion i sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau cyflenwad da iawn o adnoddau sy'n cefnogi'r dysgu'n fwriadus. Maent yn gwneud y defnydd gorau o'r adeilad a'r adnoddau sydd ar gael. Maent yn rheoli'r cyllid yn effeithiol gan wneud defnydd pwrpasol o amrywiaeth o grantiau ychwanegol, er enghraifft wrth ddefnyddio'r grant datblygu disgyblion yn synhwyrol i wella medrau llafar a chymdeithasol cynnar y disgyblion.

Mae arweinwyr ac athrawon yn cyfathrebu'n effeithiol â'r rhieni, gan ddefnyddio ystod dda o ffynonellau yn ogystal â thrafod â nhw'n uniongyrchol, yn ôl yr angen. Mae hyn yn sicrhau bod y staff yn ymateb yn brydlon i unrhyw bryderon yn syth. O ganlyniad, mae'r rhieni'n gwerthfawrogi'r ethos teuluol sy'n bodoli yn yr ysgol a'r awch gan bob aelod o staff i gefnogi pob disgybl.

Mae'r pennaeth gweithredol, gyda chefnogaeth y staff a'r llywodraethwyr, yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelu mewn ffordd hynod effeithiol a chefnogol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn hapus a diogel yn yr ysgol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:   08/02/2024